FDA Cymru | Wales Ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i Urddas a Pharch

Cyflwyniad a chefnidir

Mae FDA Cymru | Wales yn cynrychioli gweision sifil ac uwch weithwyr proffesiynol o'r Uwch Wasanaeth Sifil (SAC) i Uwch Swyddogion Gweithredol (HEO) sy'n gweithio i'r gweinyddiaethau datganoledig, Comisiwn y Senedd, a chyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae FDA Cymru | Wales yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn.

Arweiniodd yr FDA yr ymgyrch tymor hir dros broses gwynion gwbl annibynnol yn Nhŷ'r Cyffredin.

Yn ymchwiliad y Fonesig Laura Cox i fwlio ac aflonyddu ar staff Tŷ'r Cyffredin, canfu fod bwlio ac aflonyddu wedi'i ganiatáu oherwydd y diwylliant yn y Senedd a oedd yn goddef ac yn cuddio bwlio ac aflonyddu. Argymhellodd bolisi cwbl annibynnol ar gyfer cwynion ac na fyddai ASau yn chwarae unrhyw ran yn y broses hyd at ac yn cynnwys penderfyniadau ar sancsiynau. Hefyd, gan fod proses annigonol wedi bod yn y Senedd, argymhellodd y dylai staff allu cyflwyno achosion hanesyddol er mwyn ymchwilio iddynt yn y system newydd. Dyma'r union argymhellion yr oedd yr FDA wedi bod yn galw amdanynt.

Ym mis Mehefin 2020 cymeradwyodd Tŷ'r Cyffredin gam olaf y broses annibynnol trwy bleidleisio dros gynnig i sefydlu'r Panel Arbenigol Annibynnol (IEP) newydd i wneud penderfyniadau ynghylch sancsiynau ar gwynion a gadarnhawyd o fwlio, aflonyddu ac aflonyddu rhywiol yn erbyn ASau. Cynlluniwyd cam olaf y broses gan gangen Tŷ'r Cyffredin yr FDA, ac rwy'n cynnig cefnogaeth lawn gan yr FDA wrth weithredu proses annibynnol ar gyfer y Senedd.

Mae FDA Cymru | Wales yn nodi, gyda diddordeb, fel rhan o'r adolygiad mewnol diweddar o'r polisi Urddas a Pharch, fod sawl ymatebydd 'wedi awgrymu y dylai'r system ar gyfer adrodd ynghylch pryderon am urddas a pharch gael ei gweinyddu a'i rhedeg gan gorff annibynnol'. Nodwn hefyd fod yr adolygiad yn cyfeirio at adroddiad 'Prosiect Pawb' Plaid Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023 ac argymhelliad yr adroddiad hwnnw i benodi ymchwilydd allanol annibynnol i ymchwilio i bob cwyn am aflonyddu rhywiol. Mae'r ddau yn adlewyrchu galwad gyson yr FDA i'r Senedd gyflwyno proses cwynion annibynnol.

Mae Atodiad B o'r adolygiad polisi Urddas a Pharch yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd i ddelio â chwynion am Aelodau mewn sefydliadau eraill - gan gynnwys sefydlu'r Cynllun Cwynion Annibynnol (ICGS) ac IEP yn San Steffan.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, un o'r prif ddisgwyliadau gan FDA Cymru|Wales yw bod yn rhaid i'r Senedd nawr weithredu proses gwbl annibynnol ar gyfer delio â chwynion o fwlio, aflonyddu ac aflonyddu rhywiol, tebyg i'r hyn sydd ar waith yn San Steffan.

Dylid nodi hefyd bod Comisiwn Tŷ'r Cyffredin ym mis Rhagfyr 2023 wedi rhyddhau cynigion ar gyfer polisi gwahardd sy'n seiliedig ar risg i Aelodau sy'n destun honiadau difrifol yn ymwneud â throedd dreisgar neu rywiol - enghraifft y byddai'n dda o beth i'r Senedd ei dilyn.

Dylai'r Senedd anelu at bolisi cadarn i ddelio â chwynion yn erbyn swyddogion etholedig y gellir ei chymharu'n gyffredinol â pholisi disgyblu cyflogwr. Dylai staff deimlo'n hyderus i gyflwyno eu cwyn, bod proses ymchwilio annibynnol a theg, ac y deuir i benderfyniad ynghylch y gosb heb unrhyw ymyrraeth wleidyddol. Mae'r cyhoedd hefyd yn disgwyl bod yr holl swyddogion etholedig ac achwynwyr yn cael eu trin yn deg a chyfartal waeth beth fo'u plaid wleidyddol, statws neu lefel.

Ym mhrofiad yr FDA, ym mhob cwr o'r DU, dim ond proses annibynnol sy'n gwbl rydd o ymyrraeth wleidyddol sy'n gallu gweithio. Os oes unrhyw gyfle i hunanreoleiddio, bydd gwleidyddiaeth yn cael blaenoriaeth dros degwch a bydd dioddefwyr achosion o fwlio, aflonyddu ac aflonyddu rhywiol yn cael cam. Mae'n hawl sylfaenol y dylai pawb yn haeddu cael eu trin ag urddas a pharch yn y gweithle.

Isod rhestrir ein hymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd gan yr ymgynghoriad a'r materion a'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad mewnol diweddar o'r polisi.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

Cwestiwn: Ydych chi'n teimlo bod unrhyw rwystrau rhag codi pryderon am ymddygiad amhriodol Aelod o'r Senedd neu rywun sy'n gweithio ar ystâd y Senedd?

1. Mae FDA Cymru|Wales yn dal o'r farn bod y broses o benderfynu a yw cwyn yn dderbyniol yn parhau'n aneglur ac y gallai atal staff rhag gwneud cwyn oherwydd y cam 'cyn-ymchwilio'.
2. Yn ogystal â hyn, mae FDA Cymru|Wales yn ystyried y gallai disgresiwn y Comisiynydd i wrthod cwyn cyn dod i benderfyniad terfynol, a'r gofyniad y dylai'r achwynydd ddatgan sut y credir bod yr ymddygiad sy'n rhan o'r gŵyn yn torri'r Cod, wneud y broses yn llai hygyrch.
3. Yn ei [Adolygiad o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Senedd](#) Gorffennaf 2022, penderfynodd Pwyllgor Safonau Ymddygiad Senedd Cymru leihau'r amserlen i gyflwyno cwyn am ymddygiad aelod o'r Senedd o ddeuddeg mis i chwe mis, gyda Chadeirydd y Pwyllgor Vikki Howells AS yn datgan:

"Er mwyn sicrhau bod cof pobl am yr hyn a ddigwyddodd yn fyw o hyd a bod tystiolaeth ar gael yn rhwydd, mae'r Pwyllgor wedi pennu chwe mis fel yr amserlen ar gyfer derbynioldeb cwynion. Fodd bynnag, hoffwn roi sicrwydd y bydd y Comisiynydd yn trafod cwynion yn ymwneud ag achosion y tu allan i'r amserlen hon pan fo achos da dros oedi."

Yn ôl tystiolaeth yr FDA i'r adolygiad hwnnw "pan gyflwynir y weithdrefn, rhaid cael cyfnod i staff allu cyflwyno cwynion hanesyddol i ymchwilio iddynt".

Dywedodd yr FDA hefyd "na ddylai'r penderfyniad ynghylch a ddylid ymchwilio i gwynion a wneir ar ôl yr amserlen chwe mis fod yn ôl disgresiwn y Comisiynydd - dylai fod proses wedi'i diffinio'n glir lle gellir ystyried achosion eithriadol".

Mae FDA Cymru|Wales yn credu bod gosod terfyn amser o chwe mis a'r anallu i wneud cwynion yn erbyn cyn-ASau yn gamgymeriad ac y gallai gymell ASau i "fanteisio ar hynny". Efallai y bydd amgylchiadau lle nad yw staff yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud cwyn nes bod AS wedi gadael y Senedd, ac mae hyn yn fwy tebygol o fod yn wir gyda honiadau difrifol iawn fel aflonyddu rhywiol.

O dan y drefn sydd ar waith yn Nhŷr Cyffredin mae terfyn amser o flwyddyn ar gyfer gwneud cwynion am fwlio ond does dim terfyn amser ar gyfer cwynion am gamymddwyn rhywiol. O ganlyniad, gwnaed nifer o gwynion hanesyddol am gamymddwyn rhywiol, na fyddai wedi bod yn destun ymchwiliad fel arall.

Dylai'r Senedd ddilyn yr esiampl honno.

4. Mae FDA Cymru|Wales yn credu bod y penderfyniad i ddileu proses apelio yn gamgymeriad. Yn seiliedig ar ein profiad mewn gweinyddiaethau eraill, bydd diffyg proses apelio gwbl annibynnol - un sy'n annibynnol ar ASau ar bob cam - yn arwain at gyhuddiadau o driniaeth annheg ac ni fydd yn ennill ymddiriedaeth a hyder staff y Senedd, awdurdodau'r Senedd nac Aelodau Seneddol.

Cwestiwn: Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r drefn gwyno?

- Ydi'r canllawiau'n glir?
- Ydi'r iaith sy'n cael ei defnyddio'n syml i'w deall?
- Ydi'r ddogfen yn eich helpu i ddeall gyda phwy y dylech gysylltu yn achos gwahanol fathau o gwynion?
- Pe byddech chi'n dioddef ymddygiad amhriodol, a fyddech chi'n teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r weithdrefn fel y mae ar hyn o bryd?

Mae FDA Cymru|Wales yn credu bod y trefniadau presennol:

- a) yn rhy gymhleth, gyda'r posibilrwydd o arwain at oedi wrth ddelio â chwynion; a bod
- b) diffyg annibyniaeth lawn - mae'r trefniadau'n cynnwys ASau, gan gynnwys y Senedd gyfan, wrth wneud penderfyniadau terfynol ynghylch torri'r cod. Fel sy'n digwydd yn Nhŷr Cyffredin ni ddylai gwleidyddion etholedig gymryd rhan yn ystod unrhyw gam o'r broses.

Mae FDA Cymru|Wales unwaith eto yn galw ar y Senedd i ddilyn Tŷr Cyffredin gan weithredu proses wirioneddol annibynnol drwy gyflwyno Panel Arbenigol Annibynnol, tebyg i'r hyn sydd bellach ar waith yn Nhŷr Cyffredin.

Dylai swyddogaethau'r panel gynnwys:

- a) pennu canlyniad a sancsiwn priodol mewn achosion a gaiff eu cyfeirio ato gan y Comisiynydd Annibynnol,
- b) gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau canlyniadau; a
- c) gwrando ar apeliadau yn erbyn sancsiwn.

Os nad yw eisoes ar waith, dylai'r Senedd gyflwyno:

- Llinell gymorth ar gyfer achwynwyr,

- hyfforddiant cynhwysfawr i'r rhai sy'n ymchwilio i gwynion ynghyd â chronfa amrywiol o ymchwilwyr hyfforddedig; a
- darpariaeth ar gyfer casglu data'n effeithiol i gofnodi cwynion lluosog yn erbyn ASau a nodwyd.

Yn olaf, dylai'r Senedd hefyd ddilyn esiampl Tŷ'r Cyffredin a chyflwyno cynigion ar gyfer polisi gwahardd sy'n seiliedig ar risg i Aelodau sy'n destun honiadau difrifol yn ymwneud â throsedd dreisgar neu rywiol.

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
[Ymchwiliad i Urddas a Pharch](#)
DR05
Ymateb gan: Plaid Cymru

-
Welsh Parliament
Standards of Conduct Committee
[Dignity and Respect Inquiry](#)
DR05
Evidence from: Plaid Cymru

Ymchwiliad i Urddas a Pharch – Ymgynghoriad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) yn cynnal ymchwiliad i Urddas a Pharch.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i adolygu'r cynnydd a wnaed yn y maes hwn, sicrhau bod y drafodaeth yn y maes hwn yn parhau ac ystyried a ellid cymryd camau pellach.

Ymateb Grŵp Senedd Plaid Cymru

Cyflwyniad

1. Mae Grŵp Senedd Plaid Cymru (y Grŵp) yn croesawu ymchwiliad y Pwyllgor i urddas a pharch. Mae'r Grŵp yn cydnabod y rôl sydd ganddo i'w chwarae a'r cyfrifoldeb sydd ganddo i sicrhau bod Senedd Cymru (y Senedd) yn amgylchedd diogel i'r rhai sy'n gweithio yma, i'r rhai sy'n ymweld â'r ystâd ac i unrhyw un sy'n ymwneud â'n Haelodau neu'n cyflogeion, fel y nodwyd yn flaenorol gan Arweinydd y Grŵp ar y pryd yn y datganiad ar y cyd gan y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac arweinwyr grwpiau'r pleidiau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2017.¹

2. Mae'n hanfodol bod gan bob unigolyn, yn enwedig menywod, hyder ym mholisiau a gweithdrefnau'r Senedd a'u bod yn gallu codi pryderon neu wneud cwynion dilys am ymddygiad unrhyw unigolyn yn y Senedd a allai fod wedi methu â chyrraedd y safon ddisgwyliedig, a'u bod yn cael eu cefnogi a'u hannog i wneud hynny.

3. Mae'r Grŵp yn nodi'r cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori, sydd wedi'u hanelu'n rhannol at gael ymatebion gan unigolion yn hytrach na Grwpiau neu sefydliadau². Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae'r Grŵp yn dymuno datgan ar goedd ei farn ynghylch y gweithdrefnau cwyno ehangach sydd ar waith, yn enwedig mewn perthynas ag achosion o aflonyddu rhywiol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

4. Yn hyn o beth, mae'r Grŵp yn cefnogi'r Datganiad ar Urddas a Pharch a amlinellr yn Atodiad A y dogfennau ymgynghori³, ac yn cydnabod y gwaith pwysig y mae Comisiwn y Senedd (y Comisiwn) wedi'i wneud yn ddiweddar i adolygu a gwella polisi urddas a pharch y Senedd. Serch hynny, mae rhai materion sy'n peri pryder yng nghanasgliadau Adolygiad o Bolisi Urddas a Pharch y Comisiwn.

- Ym mharagraff 5, cyfeirir at ddarparu adnoddau ychwanegol i swyddfa'r Comisiynydd Safonau i 'hwyluso gwasanaeth gwell sy'n sicrhau bod cydbwysedd rhwng y rhywiau o'i swyddfa' ond aiff ymlaen i awgrymu bod yr adnoddau ychwanegol a oedd ar gael yn flaenorol i ddarparu gwasanaeth sy'n gytbwys o ran y rhywiau yn cael eu darparu bellach drwy brotocol ar gais y Comisiynydd 'a fydd yn helpu i sicrhau y caiff ymchwiliadau cytbwys o ran rhywedd eu cynnal *pryd bynnag y bydd angen*' (ein pwyslais ni). Y rheswm a roddir am hyn yw bod y 'Comisiynydd wedi adrodd am lai o achosion' sy'n golygu nad oes angen yr adnodd ychwanegol mwyach. O ystyried natur gwaith y Comisiynydd, dylai ei swyddfa allu cynnig gwasanaeth cytbwys o ran y

¹<https://busnes.senedd.cymru/documents/s68654/Datganiad%20gan%20y%20Llywydd%20Cadeirydd%20y%20Pwyllgor%20Safonau%20Ymddygiad%20ac%20arweinwyr%20y%20grwpiau%20plaid%20yng%20Ngh.pdf>

² <https://busnes.senedd.cymru/documents/s141639/Ymgynghoriad%20ar%20Urddas%20a%20Pharch.pdf>

³ <https://busnes.senedd.cymru/documents/s141869/Atodiad%20A.pdf>

rhywiau yn rhagweithiol **bob** amser, nid dim ond mewn ymateb i ymchwiliadau penodol fel y penderfynir gan y Comisiynydd.

- Gan gydnabod cymhlethdod y dull teirochrog a'r awdurdodau seneddol amrywiol sydd â rhywfaint o rôl o ran cymhwyso polisiâu a gweithdrefnau sy'n rhoi effaith i'r Polisi Urddas a Pharch, prin iawn yw'r drafodaeth ar rôl y pleidiau gwleidyddol – ac yn fwy penodol grwpiau'r pleidiau gwleidyddol yn y Senedd – yn hynny o beth. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y gallu i godi pryderon neu gwynion gyda'r Grwpiau eu hunain wedi bod, ac yn parhau i fod, yn llwybr adrodd allweddol a hyrwyddir mewn perthynas â'r Polisi. Anfonodd cyn-Arweinydd y Grŵp ohebiaeth at Gadeirydd y Bwrdd Taliadau yn codi pryderon ynghylch y ffaith nad oes cydnabyddiaeth ddigonol, benodol o fewn y Penderfyniad nac yn y Senedd yn ehangach, o swyddogaeth grwpiau gwleidyddol yn y maes hwn ac felly bod yn rhaid i'r adnoddau a ddarperir o dan y Penderfyniad a'r cymorth ehangach a ddarperir gan dîm Cymorth Busnes yr Aelodau ystyried y swyddogaeth hon er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni'n effeithiol. Rydym yn atodi'r ohebiaeth hon o fis Tachwedd 2021 i'r papur hwn⁴. Mae'r Grŵp hefyd wedi galw am gydnabyddiaeth ariannol i rôl y Prif Chwip i gydnabod statws y gwaith pwysig y mae'n ei wneud yn y dirwedd hon ac er mwyn ei ffurfioli o fewn system y Senedd, er mwyn i'r Senedd ddarparu cymorth, datblygiad a hyfforddiant ar gyfer y rôl.

5. Mae'r Grŵp yn nodi'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Chwarae Teg mewn ymateb i ymgynghoriad tebyg a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn y 5^{ed} Senedd rhwng 2017-2018 sy'n datgan⁵:

“The current culture does not adequately support women to bring complaints. A key challenge is to ensure that women are able to bring complaints without fear of targeted, sustained aggression and harassment, especially on social media. This shift cannot be brought about solely by changing the Code of Conduct, but as part of a wider piece of work we are confident that we can bring about the change required.”

6. Yn anffodus, 5 mlynedd a mwy yn ddiweddarach, mae llawer o'r datganiad hwnnw, os nad y datganiad cyfan, yn parhau i fod yn berthnasol. Felly, mae'r Grŵp o'r farn bod angen i'r Pwyllgor wneud gwaith manwl pellach ar fyrder i edrych ar y diffygion yn y gweithdrefnau cwyno ac ymchwilio sydd ar waith a allai arwain at ddiwygio'r ffordd y mae Comisiynydd Safonau'r Senedd (y comisiynydd) yn cyflawni ei waith yn ogystal â'r holl beirianwaith y tu hwnt i'r Comisiynydd Safonau ac o'i amgylch.

7. Fel cam cyntaf, dylai'r Pwyllgor adolygu i ba raddau y mae wedi gweithredu'r 21 o argymhellion sydd yn adroddiad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd yn y 5^{ed} Senedd, sy'n dwyn y teitl 'Creu'r Diwylliant Cywir'.⁶

Prosiect Pawb

8. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod Plaid Cymru wedi cyhoeddi Prosiect Pawb yn 2023⁷, adroddiad a gomisiynwyd i ddeall y diwylliant o fewn y blaid a gwneud argymhellion ynghylch

⁴ Atodiad A, Yn Atodedig.

⁵ <https://business.senedd.wales/documents/s72568/Consultation%20response%20from%20Chwarae%20Teg.pdf>

⁶ <https://senedd.cymru/laid%20documents/cr-ld11726/cr-ld11726-w.pdf>

⁷ https://assets.nationbuilder.com/plaid2016/pages/12286/attachments/original/1683117478/Prosiect_Pawb_-_Canfyddiadau_Allweddol_a_Chrynodeb_o'r_Argymhellion.pdf?1683117478

sut i arwain newid, yn benodol felly ar faterion yn ymwneud ag aflonyddu, bwlio a mysoginistiaeth.

9. Mae'r Grŵp yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithredu'r holl argymhellion perthnasol o adroddiad Prosiect Pawb sy'n berthnasol i'w gwaith yn y Senedd. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am adolygu'r argymhellion ac ystyried a oes rhai yn berthnasol i'w waith, ac y gallai'r Senedd yn ei chyfanrwydd eu rhoi ar waith mewn rhyw ffordd hefyd. Byddai'r Grŵp yn croesawu unrhyw gyfleoedd i gefnogi'r Pwyllgor gyda'r ymdrech hon.

Adolygu Prosesau Aflonyddu Rhywiol a Llwybrau Adrodd

10. Rydym ar ddeall bod llawer o lwybrau adrodd er mwyn codi pryderon neu wneud cwynion o dan y Polisi. Mae'n bosibl y byddai mwy nag un weithdrefn yn berthnasol ar yr un pryd ac felly mae'n bosibl na fydd yn glir i rywun sy'n dymuno codi pryder neu wneud cwyn o dan ba weithdrefn y dylai wneud hynny, pa un sy'n cael blaenoriaeth a beth mae'r broses yn debygol o olygu. Mae rhai o'r rhain ar gael ar wefan y Senedd.

11. Er enghraifft, y dudalen 'Gwneud cwyn os mai cyflogai unrhyw Aelod o'r Senedd neu grŵp plaid ydych chi'⁸. Nodir dau brif lwybr yn yr enghraifft hon 1) Y Comisiynydd Safonau neu 2) Adrodd yn uniongyrchol drwy ddefnyddio gweithdrefnau'r blaid wleidyddol ei hun. Ni chyfeirir yma, fodd bynnag, at y Weithdrefn Gwyno na'r Polisi Gwrth Aflonyddu a Bwlio a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol sy'n annog codi'r pryder neu'r gŵyn gyda'r sawl y gwneir y gŵyn yn ei gylch, ac sydd hefyd yn annog datrysiad anffurfiol. Ymddengys mai dyma'r brif weithdrefn ar gyfer cwyn gan y rhai a gyflogir fel Staff Gwasanaethau Cymorth yr Aelodau/Grŵp.

12. Byddai'r Grŵp yn croesawu adolygiad cynhwysfawr o'r modd yr ymdrinnir yn ymarferol â chwynion ac aflonyddu rhywiol a sut y mae'r Polisi'n cael ei roi ar waith gan y Senedd. Gallai'r adolygiad hwn gael ei gomisiynu ar y cyd gan unigolion a chyrrff perthnasol o bob rhan o'r Senedd a dylai gael ei gynnal gan arbenigwr allanol annibynnol yn y maes, gan ddefnyddio arfer gorau sefydliadol ar draws Seneddau a phleidiau gwleidyddol.

13. Dylai adolygiad o'r fath ystyried sut y gallai'r Senedd roi proses gwyno benodol ar waith ar gyfer achosion o aflonyddu rhywiol, yn unol â'r system sydd bellach wedi'i sefydlu yn San Steffan. Dylai hyn edrych hefyd ar sut y mae'r Gwasanaeth Cwynion ac Achwynion Annibynnol yn gweithio yn San Steffan ochr yn ochr â system y Comisiynydd/Pwyllgor Safonau, ac a fyddai'n ddatblygiad gwerthfawr pe bai'r Senedd yn cynnwys elfen ychwanegol yn ei lwybrau adrodd. Byddai hyn yn cynnwys y defnydd o arbenigwyr annibynnol wrth ymchwilio i honiadau, a chynnyg cymorth arbenigol i achwynwyr drwy gydol y broses.

14. Mae'r Grŵp yn credu y dylai proses o'r fath hefyd ddarparu lefelau gwahanol o atebolrwydd i unigolion, fel y gellir monitro patrymau ymddygiad, pe na bai cwyn ffurfiol yn cael ei gwneud yn y lle cyntaf. Dylid sefydlu proses nad yw'n dibynnu ar unigolion i wneud cwynion ond un sy'n galluogi unigolion i nodi digwyddiadau mynych o ymddygiad amhriodol yn ychwanegol at y mecanwaith cwynion. Gallai proses o'r fath arwain at gosbau os ceir tystiolaeth ailadroddus o un ffynhonnell neu fwy.

⁸ <https://senedd.cymru/cymorth/cwynion/staff-a-gaiff-eu-cyflogi-gan-aelodau-o-r-senedd-neu-grwpiau-gwleidyddol/?PageSize=1&Page=6&ViewModelType=Related&IsSubSearch=false&PagelId=314961&Culture=cy-GB&SiteHomePagelId=1634&Tags=false>

15. Gallai unrhyw adolygiad o'r fath hefyd ystyried agweddau eraill a amlinellir yn yr ymateb hwn, ond ni ddylai hynny atal y Pwyllgor nac unrhyw gorff perthnasol arall yn y Senedd rhag cymryd camau ar unwaith, yn debyg i'r hyn a awgrymir isod, i amddiffyn unigolion yn well rhag aflonyddu rhywiol a mathau eraill o ymddygiad amhriodol.

Cyfnod Cyfyngiadau o 6 Mis

16. Dylid ystyried gwrthdroi'r penderfyniad i newid yr amserlen ar gyfer gwneud cwynion derbyniadwy i 6 mis, gan ei hadfer i 12 mis, o ystyried y canlyniad anfwriadol posibl yn sgil hynny o ran ei gwneud yn anos i achwynwyr adrodd am gŵyn.

17. Dylai'r Comisiynydd hefyd ei gwneud yn gliriach i ba raddau y gallai ddefnyddio ei ddisgresiwn i ystyried cwynion y tu allan i'r cyfnodau hyn. Dylid sicrhau bod y disgresiwn hwn yn cael ei egluro a'i symleiddio ac y rhoddir cyhoeddusrwydd da iddo, yn enwedig o ystyried bod tystiolaeth gan Cymorth i Ferched Cymru wedi datgan yn flaenorol bod cael statud gyfyngedig o gyfyngiadau yn broblem fawr, yn enwedig mewn achosion o aflonyddu rhywiol lle mae'n bosibl na fydd unigolion yn teimlo y gallant godi eu llais neu wneud cwyn ar unwaith⁹.

Mesurau Ataliol a Hyfforddiant Gorfodol

18. Gallai pwyslais ar gamau ataliol hefyd drawsnewid agweddau ar draws y Senedd tuag at atal aflonyddu rhywiol ac ymddygiad amhriodol. Ar ei wefan, mae ACAS yn amlinellu nifer o gamau y gall gweithleoedd fel y Senedd eu cymryd i atal ymddygiad o'r fath¹⁰:

1. Rhoi polisiau a gweithdrefnau ar waith
2. Sicrhau cyfatebiaeth o fewn polisiau eraill
3. Gwirio bod polisiau'n gweithio
4. Hyfforddi staff
5. Asesu'r risg
6. Creu diwylliant dim goddefgarwch
7. Gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

19. Er y gallai rhai o'r rhain fod yn eu lle eisoes, dylai prosesau adolygu a gweithredu cyson fod yn norm. Gallai'r Pwyllgor a'r Comisiwn gynnal ymchwil i gamau ataliol eraill y gellir eu cymryd yn ychwanegol at yr uchod.

20. O ran hyfforddiant, mae'r Grŵp yn credu y dylai'r holl Aelodau, Staff Cymorth yr Aelodau a Staff y Comisiwn gael hyfforddiant gorfodol ar urddas a pharch, aflonyddu rhywiol a bod yn wylwyr gweithredol ar ddechrau eu cyfnod yn y Senedd. Dylid diweddarau'r hyfforddiant hwn yn rheolaidd hefyd a chynnal sesiynau gloywi i sicrhau bod yr Aelodau a'r staff yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd am ymddygiad priodol a beth i'w wneud os ydynt yn gweld ymddygiad amhriodol.

Tryloywder

21. Mae tryloywder yn elfen hanfodol o sicrhau a meithrin ymddiriedaeth mewn gweithdrefnau cwyno. Ar draws y sectorau seneddol a chyfreithiol cydnabyddir bod angen bod yn agored ac yn dryloyw o fewn prosesau cwyno. Mae'r egwyddor allweddol hon yn hollbwysig i

⁹ <https://cofnod.senedd.cymru/Committee/4518>

¹⁰ <https://www.acas.org.uk/sexual-harassment/steps-for-employers-to-prevent-sexual-harassment>

atebolrwydd, ac yn galluogi i gynllun ddangos ei fod yn deg, sydd yn ei dro yn gwella hyder y cyhoedd.¹¹

22. Mae'r Grŵp yn credu y dylai'r arfer sydd bellach ar waith yn Senedd y DU o enwi Aelodau sy'n destun ymchwiliad yn dilyn cwyn dderbyniadwy¹², yn ogystal â chyfeirio at y mater yr ymchwilir iddo, gael ei fabwysiadu gan y Senedd hefyd.

Amddiffyniadau i Ddioddefwyr, Achwynwyr a Thystion

23. Mae'r Grŵp o'r farn y dylai'r holl unigolion yn y Senedd fod yn wylwyr gweithredol a bod ganddynt ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw ymddygiad amhriodol y gallant fod yn dyst iddo. O ystyried hyn felly, dylai'r Pwyllgor ystyried sut y gellir barnu bod cwynion a wneir i'r Comisiynydd gan unigolion nad oeddent yn ddioddefwyr uniongyrchol ymddygiad o'r fath, ond yn hytrach yn dyst i'r ymddygiad, yn dderbyniadwy. Byddai hyn yn helpu i hyrwyddo diwylliant dim goddefgarwch, yn ogystal â lleihau'r baich ar yr unigolyn sydd wedi dioddef ymddygiad o'r fath. Dylid nodi, fodd bynnag, bod rhai o ganllawiau'r Senedd yn cynghori'n benodol yn erbyn dyletswydd i adrodd ar hyn o bryd. Er enghraifft, roedd y canllawiau'n sôn yn flaenorol am gyfeirio, sef y cysyniad o gael 'cydsyniad' yr unigolyn: "*The political party may wish to refer the allegation to Members' Business Support, they should only do so with your consent.*" Mae hon yn ystyriaeth bwysig. Yn amlwg, mae angen adolygu'r canllawiau i sicrhau cysondeb ar draws llwybrau adrodd ac i gadarnhau safbwynt swyddogol y Senedd o ran dyletswydd i adrodd a pha amddiffyniadau a chymorth sydd ar gael i'r rhai y mae rheidrwydd arnynt i adrodd.

24. Oherwydd amrywiaeth o ffactorau megis anghydbwysedd o ran y rhywiau a phŵer, neu beidio â chael eu credu, colli eu swyddi neu niwed posibl i'w henw da, neu enw da plaid a diffyg mynediad i gymorth cyfreithiol, gall dioddefwyr ac unigolion fod yn fwy amharod i godi pryderon neu wneud cwynion. Dylai'r Pwyllgor ystyried felly, a yw'r amddiffyniadau a'r gefnogaeth sydd ar gael i bawb sy'n ymwneud â phroses gwyno yn briodol ac yn ddigonol, yn enwedig o ran chwythwyr chwiban, neu unigolion sy'n dymuno cadw eu hawl i breifatrwydd.

Adnoddau a Diwygio'r Comisiynydd Safonau a strwythurau ychwanegol / amgen

25. Dylai'r Pwyllgor ystyried y cymorth a'r adnoddau sydd ar gael i'r Comisiynydd. Efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried a yw'n dal yn briodol i un unigolyn ysgwyddo'r holl gyfrifoldeb fel Comisiynydd, yn enwedig o ystyried cyfyngiadau'n ymwneud â sgiliau, arbenigedd a phrofiadau un unigolyn. Fel arall, os caiff ei gadw, mae'n bosibl y gallai Gwasanaeth Cwynion ac Achwynion Annibynnol newydd weithredu ochr yn ochr â'r Comisiynydd Safonau fel bod rôl ymchwiliol y Comisiynydd mewn achosion o aflonyddu/Urddas a Pharch yn cael ei throsglwyddo i gorff newydd o'r fath, ond bod y gosb o dan y Cod Ymddygiad ar ôl ymchwiliad yn parhau i fod yn nwylo'r Comisiynydd/Pwyllgor Safonau.

Swyddogaeth Gymorth Adnoddau Dynol i Aelodau a Staff

26. Dylai'r Pwyllgor ystyried pa gyngor a gwasanaethau AD y gellid eu darparu i'r Aelodau, gan ystyried eu rolau fel cyflogwyr unigol, pe bai angen cyngor arnynt ar faterion megis

¹¹ <https://www.legalombudsman.org.uk/media/k4cfzsbw/transparency-and-reporting-impact-response-september-2020.pdf>

¹² <https://www.parliament.uk/mps-lords-and-offices/standards-and-financial-interests/parliamentary-commissioner-for-standards/complaints-and-investigations/allegations-currently-under-investigation-by-the-commissioner/>

gweithredu a monitro polisïau'r gweithle, gweithdrefnau cwyno, neu pan fydd eu swyddfa, neu unigolyn yn eu swyddfa, yn rhan o weithdrefn gwyno.

27. Byddai i hyn bwysigrwydd ychwanegol i Aelodau na fyddent wedi cael unrhyw brofiad o faterion o'r fath cyn cael eu hethol a bod yn gyfrifol am redeg swyddfa a rheoli tîm cyfan o staff. O ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau, efallai y bydd yr Aelodau weithiau'n ei chael yn anodd datrys materion yn brydlon ac yn foddhaol, a gallai hyn gael effaith uniongyrchol ar staff o ran materion yn ymwneud ag urddas a pharch ac ymddygiad priodol yn y gweithle.

28. Efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried rôl yr Aelodau fel cyflogwyr ac a ddylai'r cyfrifoldeb am agweddau AD y rôl honno gael ei ysgwyddo gan gorff cwbl wahanol. Mae'r undebau yn San Steffan am i'r cyfrifoldeb dros faterion adnoddau dynol/anghyfodau'n ymwneud â staff gael eu hysgwyddo gan gorff annibynnol ac nid gan yr Aelodau.

29. Dylai staff hefyd gael mynediad i swyddogaeth AD annibynnol er mwyn cael cyngor ac er mwyn cyfeirio pobl ati.

Hawliau'n Ymwneud â'r Gymraeg

30. Dylai dioddefwyr, achwynwyr a thystion allu ymgysylltu yn yr iaith o'u dewis a darparu tystiolaeth ac ateb cwestiynau yn yr iaith honno bob amser, yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd sy'n datgan "Mae'r Senedd yn sefydliad cwbl ddwyieithog. Caiff y ddwy iaith swyddogol eu trin yn gyfartal a gweithio dwyieithog yw'r norm bellach."¹³

31. Mae'r Grŵp ar ddeall bod unigolion, mewn rhai achosion, wedi penderfynu darparu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig yn Saesneg, er y byddent yn teimlo'n fwy cyfforddus a chartrefol yn ateb cwestiynau a/neu'n darparu tystiolaeth yn eu hiaith gyntaf, sef y Gymraeg. Roedd hyn yn rhannol er mwyn osgoi'r angen i drydydd parti weithredu fel cyfieithydd mewn sgysiau sensitif. Dylai Tîm Ieithoedd Swyddogol y Senedd hefyd gynnal archwiliad i ganfod i ba raddau y mae'r arferion presennol yn cydymffurfio â disgwyliadau'r Cynllun a'r Ddeddf ac adolygu capasiti'r swyddfa o ran sgiliau iaith i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Fel isafswm, dylid anfon gohebiaeth yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig bob amser yn ôl yr achos a dylai'r Comisiynydd allu delio â gohebiaeth o'r fath. Dylid cynnig cyfle rhagweithiol i bawb sy'n dod i gysylltiad â gweithgaredd y Comisiynydd i ddarparu tystiolaeth lafar yn Gymraeg. Yn ddelfrydol dylai fod gan y gwasanaeth gapasiti digonol i ddarparu hyn, fodd bynnag, mewn unrhyw achos lle nad yw hynny'n bosibl, y Comisiynydd ddylai fod yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer cyfieithu ar y pryd os oes angen er budd y di-Gymraeg.

Cwblhau a Chofnodi Cwynion yn erbyn Aelodau

32. Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd am ystyried y gweithdrefnau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer yr hyn sy'n digwydd i gŵyn pe na bai Aelod yn cael ei ailethol neu pe bai'n ymddiswyddo cyn i unrhyw ymchwiliad neu broses gael eu cwblhau. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi dadlau o'r blaen y dylai ymchwiliadau barhau beth bynnag, er mwyn ymchwilio nid yn unig i'r unigolyn, ond hefyd i'r diwylliant o fewn y sefydliad a'r gweithle a fyddai wedi galluogi aflonyddu o'r fath i ddigwydd.¹⁴

¹³ <https://senedd.cymru/media/01memsk/gen-ld15324-w.pdf>

¹⁴ <https://cofnod.senedd.cymru/Committee/4518>

33. Byddai hyn hefyd yn sicrhau cofnod tryloyw a chyhoeddus o ymddygiad Aelodau unigol, pe baent yn cael eu haillethol yn y dyfodol, ac yn caniatáu ystyried unrhyw batrwm ymddygiad posibl, hyd yn oed os yw'n ymddygiad hanesyddol ers tymor blaenorol y Senedd.

Casgliad a'r Camau Nesaf

34. Mae'r Grŵp yn credu y dylai'r ymchwiliad hwn fod yn ddechrau newydd i waith pellach yn y maes hwn, a fydd yn cynnwys y Pwyllgor, y Comisiwn, y Comisiynydd a'r holl bleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, yn arbennig felly wrth edrych ymlaen tuag at Senedd ddiwygiedig. Dylai'r gwaith hwn hefyd gynnwys cymorth allanol gan unigolion neu sefydliadau sy'n arbenigo mewn ymdrin ag achosion o aflonyddu rhywiol ac ymddygiad amhriodol.

35. Dylai'r Pwyllgor ystyried asesu ac adolygu pa gyrff sydd â phwerau i wneud newidiadau, yn enwedig pe bai angen newidiadau i ddeddfwriaeth a/neu Reolau Sefydlog, a phwy sy'n gyfrifol am gymryd rôl arweiniol. Mae'n debygol y gallai ac y dylai newidiadau gael eu rhoi ar waith gan yr holl gyrff a nodir yn y paragraff uchod, ac felly mae'r Grŵp yn credu bod gan y Pwyllgor rôl i'w chwarae i sicrhau a goruchwyllo cysondeb a chydymffurfiaeth yn gyffredinol o ran rhoi unrhyw ddiwygiadau o'r fath ar waith, fel sydd gan Gomisiwn y Senedd ei hun.

36. Byddai'r Grŵp yn croesawu unrhyw gyfleoedd a thrafodaethau pellach a allai helpu i hwyluso newid a chyflawni newid ystyrllon i ddioddefwyr aflonyddu rhywiol a mathau eraill o ymddygiad amhriodol.

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
[Ymchwiliad i Urddas a Pharch](#)
DR05
Ymateb gan: Plaid Cymru

-
Welsh Parliament
Standards of Conduct Committee
[Dignity and Respect Inquiry](#)
DR05
Evidence from: Plaid Cymru

Adam Price AS/MS

Aelod o'r Senedd dros Ddwyrain Caerfyrddin
a Dinefwr

—
Member of the Senedd for
Carmarthen East and Dinefwr

Dr Elizabeth Haywood,
Chair of the Senedd's Independent Remuneration Board,
c/o Llinos Madeley, Clerk to the Board
Via e-mail: llinos.madeley@senedd.wales

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Adam.Price@senedd.cymru
senedd.cymru/AdamPrice

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Adam.Price@senedd.wales
senedd.wales/AdamPrice

0300 200 6565 

@Senedd 

@SeneddWales 

/SeneddWales 

Dyddiad | Date: 05 Tachwedd 2021

Annwyl Elizabeth,

May I take this opportunity at the outset to welcome you to your post and to wish you well in carrying out the responsibilities it entails.

I am mindful that we have not yet had the opportunity to meet formally since you have taken on the post of Chair of the Board as the Fifth Senedd was drawing to a close against the unprecedented backdrop of the global pandemic, on top of the more familiar pressures associated with the pre-election period.

I would, nevertheless, welcome the opportunity to meet with you at a mutually convenient time to look forward to the aspirations we have for the Sixth Senedd – including in the crucial area of Senedd reform – and the Board's contribution to that all important work.

In the interim, there is one specific matter of concern which I would like to bring to the Board's attention and request that it be considered at your next meeting which I understand is scheduled to take place before the end of this month.

I am drawing the Board's attention to this matter on the basis of i) my responsibilities as the remunerated Group Leader in the employment of the Party Group's staff and ii) my understanding and interpretation of my wider leadership role as the remunerated Group Leader in having ultimate oversight of and responsibility for maintaining a cohesive, well governed and disciplined Group thereby contributing to the wider parliamentary framework and success of the Senedd institution.

The context of this correspondence is a request for legal advice on two specific matters towards the end of the Fifth Senedd in readiness for the Sixth Senedd, reflecting on experiences in operating as a Group during the period 2016-2021 and how procedures and employment

practices may be strengthened further as preparations for a new Group were underway. It was explained that it was not possible for the Senedd Commission's MBS Team or Legal Services to provide the advice sought, therefore an application was submitted to draw on remaining Group office costs to source external advice. This was turned down at the MBS level and at appeal by the Clerk through the established appeals procedure. The decision is recorded in the public facing appeals log (**[Formal Appeals on Members' Expenses \(senedd.wales\)](#)**) as follows:

'A Group sought access to funds, from their Group allowance, for external legal advice for two issues. Firstly, advice was sought about a potential internship scheme aimed at BAME candidates. Secondly advice was sought about internal Group arrangements. Paragraph 8.1.1 of the Determination provides that the allowance is for parties to assist in the discharge of their work in the Senedd. It is payable only in respect of costs which are wholly, exclusively and necessarily for the purpose of discharging their duties as Members. The Chief Executive and Clerk did not consider that the two requests fell within the scope of paragraph 8.1.1 and the appeal was dismissed.'

I have included as an annex to this letter an extract from exchanges between my Chief of Staff and an official within MBS in relation to the specific matter. The position taken is generally consistent with the Clerk's basis for rejecting the appeal. I should like to place on record that I make no criticism of officials who presumably took this position based on their own legal advice, but rather include it for context in relation to the application and interpretation of the relevant provisions of the Determination in this instance.

Without wanting to unhelpfully rehearse or appear to be attempting to reopen the appeals process which has clearly now been exhausted in the case of the specific applications made in the Fifth Senedd, and which is the responsibility of the Clerk, I will attempt to outline the potential wider significance of the matter for the future, drawing on the context of the legal advice that was being sought and why.

My objective in doing so is to query whether the Determination should be adjusted – whether in terms of substance or simply in terms of drafting to remove any uncertainty or ambiguity – to ensure that Party Groups in the Senedd are able to carry out their work in the most appropriate and comprehensive manner and are equipped and empowered with the necessary resources to do so.

BME parliamentary internship scheme

Summary of proposal and issue

It has been an aspiration of mine for a while to offer a parliamentary internship scheme, rewarded at the real living wage, which would be more structured and extensive in terms of duration than the brief periods of unpaid work experience we have offered in recent years. The renewed focus

on structural racial inequalities in Welsh society and around the world in light of the Black Lives Matter movement also resulted in renewed consideration of the diversity of our own workforce.

I was therefore keen to explore whether these two strands could be combined through the creation of a parliamentary internship role targeted specifically at people from black and minority ethnic backgrounds. Similar schemes have been successfully run by organisations in Wales and other parliaments too – that exist to support people from all backgrounds into politics.

The driver for my interest in setting up such a programme as an employer of Party Group staff is that I want to make sure that we do not miss out on diversity of thinking, skills and experience in our own workforce, as well as ensuring we play our part in tackling structural underrepresentation of people from black and minority ethnic backgrounds in Welsh politics and Welsh public life more broadly. I want to ensure that our own workforce within the Senedd Group reflects the Wales that we serve and proactively leads the way towards the new Wales we are determined to create. Setting up a scheme of this nature would be one positive step in this direction, though would need to be considered alongside other wider changes to make progress on several fronts.

My team took advice from the Members' Business Support team in the Senedd Commission and shared our proposal. The principle of offering a temporary (3-6 months contract) Band 3 post as an internship opportunity, paid the real living wage in the pay framework set by the Remuneration Board, was not queried. MBS sign posted my team to other organisations and advised on the general principles of positive action, which was useful to an extent. Following advice, we then undertook an anonymous workforce diversity monitoring survey at the end of the last Senedd to develop the evidence base for the proposal and to verify that it could reasonably be defended as a proportionate means of achieving a legitimate aim.

However, given this was uncharted territory for the Group and given the potential for reputational damage if it was challenged, I felt we needed a suitably qualified person to provide assurance that as an employer the legality of both the process undertaken to capture the diversity profile of our workforce and the wording and presentation of the proposed scheme was robust – to sense check the documentation that had been prepared and to give the 'green light' to advertise.

Regrettably, given the inability to obtain the legal advice and assurance required, the scheme has been unable to proceed further. Alongside this letter I have provided, by way of further context, a copy of the draft documentation prepared at the end of the Fifth Senedd; I am anxious to ensure that the scheme can proceed at the earliest convenience in this Sixth Senedd.

Significance

My observation would be that:

- Equality has been enshrined into the foundations of the devolution arrangements established in 1999, with the then National Assembly's founding legislation, the Government of Wales Act 1998, requiring the new institution to '*make appropriate arrangements with a view to securing that its functions are exercised with due regard to the principle that there should be equality of opportunity for all people*'.
- As far as I am aware, equality has never been viewed as something that is desirable, additional or nice to have: it is, and should continue to be, enshrined into every aspect of our work and this proposal, in my own view, follows in that trajectory.
- If this basic premise is accepted, I believe that it follows logically that explicit confirmation be ensured that the Determination is a document to empower and support Members in their role as employers to proactively take positive action and to enhance equality and diversity by whatever means that are deemed appropriate and necessary.

In addition to asking the Board to consider what changes, if any, may be required to the Determination itself so as to explicitly enable Groups to seek the sort of advice required and operate to proactively strive for equality in its widest sense, I would be grateful for any guidance that can be given in the meantime to allow the proposal to proceed given that if the Board considered changes to the Determination necessary then it will likely involve a consultation process which would not be concluded presumably until the next financial year 2022-23.

Governance of Group disciplinary arrangements

Summary of proposal / issue

Again in the context of preparing for the Sixth Senedd, the Group undertook a review of its governance arrangements. The need for specific legal advice arose in the context of reviewing the section of our Group standing orders relating to the discipline and conduct of Members. At a fundamental level, it appears that there is no consensus on the principle that Groups/Group Leaders have a legitimate role in maintaining robust and effective processes to maintain discipline and can therefore legitimately make use of resources provided under the Determination to discharge such an obligation. The position taken is that these are matters belonging exclusively to the party, rather than parliamentary space.

Significance

My observation would be that:

- Party Groups are not creatures that exist in a vacuum in any parliamentary context. Senedd Groups are usually an organ or entity within a wider whole of a political party – in the case

of Plaid Cymru and most others – a membership organisation. That may very often be seen in the case of disciplinary processes and procedures where there are *parallel* processes in the parliamentary and party space, clearly requiring read across from time to time, but which does not take away from the fact that parliamentary Groups have obligations to uphold and maintain discipline. For instance, the “removal of the whip” is fundamentally a parliamentary concept, not a party political one. Jeremy Corbyn MP is back in the Labour *Party*, but currently has not been readmitted into the *Parliamentary* Labour Party in the UK Parliament.

Whilst maintaining and enhancing the reporting routes as appropriate, there should be some agreed general principles for raising concerns and complaints under the single Dignity and Respect policy, regardless of the route or procedure taken. Each procedure should be complementary to one another (and certainly not contradictory) guarantee and address issues of:

- Confidentiality and anonymity
- The ability to submit a collective grievance
- A target timescale for acknowledgment and resolution
- Who is responsible for providing support to the complainant and those subject to concerns/complaints
- A step-by-step guide to the practicalities of the process under that specific procedure and potential outcome/outcomes

There should be a single guidance document available online on the public internet, on the staff intranet, in the staff handbook and on paper/posters in the building.

Resources and support to deal with concerns and complaints should be provided to the Party Groups / Whips by the Senedd Commission and Independent Remuneration Board.

The Remuneration Board should establish how many offices have adopted the Anti-harassment and bullying policy and the Equal opportunities policy, how many have done with adaptations and how many as is. Is this model template robust, clear and fit for purpose? It should ensure that all employers under its locus should have a mandated, consistent policy and keep its operation and effectiveness within the Dignity and Respect landscape under review. The same goes for the Grievance Procedure.

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
[Ymchwiliad i Urddas a Pharch](#)

DR09

Ymateb gan: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

-

Welsh Parliament
Standards of Conduct Committee
[Dignity and Respect Inquiry](#)

DR09

Evidence from: Equality and Human Rights Commission



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Ymateb i'r ymgynghoriad

Urddas a Pharch

Manylion yr ymgynghoriad

Teitl yr ymgynghoriad: Ymchwiliad Urddas a Pharch

Ffynhonnell yr ymgynghoriad: Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd

Dyddiad: 22 Ionawr 2024

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â

Ruth.Coombs@equalityhumanrights.com

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Ty'r Cwmniau (Llawr 1af), Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Cyflwyniad

1. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y Comisiwn) yw'r rheoleiddiwr cydraddoldeb annibynnol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban, ac mae'n Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol statws 'A' a gydnabyddir gan y Cenhedloedd Unedig. Mae gan y Comisiwn fandad statudol i gynghori'r Llywodraeth a'r Senedd ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol, ac i hyrwyddo a diogelu cydraddoldeb a hawliau dynol ledled Prydain.
2. Rydym yn croesawu'r cyfle i roi cyngor i lywio'r Ymchwiliad i urddas a pharch.
3. Gwnaethom ymateb i [Adolygiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad: Creu'r Diwylliant Cywir yn 2018](#), a gofynnwn i'r ymateb hwn gael ei ystyried ochr yn ochr â'n hymateb yn 2018, am fod sylwedd yr ymateb hwnnw'n berthnasol yma. Nid ydym wedi ymateb i'r cwestiynau ymgynghori, yn hytrach rydym wedi nodi sylwadau perthnasol isod sy'n dod o fewn ein cylch gorchwyl.
4. Mae'r Comisiwn yn gorff statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Mae'n gweithredu'n annibynnol i annog cydraddoldeb ac amrywiaeth, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, ac amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol. Fel rhan o'r rôl hon, rydym yn tynnu sylw at faterion sy'n peri pryder, yn llywio ac yn arwain arfer da, yn ymgysylltu ag eraill mewn datrysiadau, ac yn dylanwadu ar newid mewn arferion cyflogaeth.

Ein hymateb

Atal gwahaniaethu ac aflonyddu

Prif ffocws yr ymgynghoriad yw'r gweithdrefnau adrodd ar ôl achos o gamymddwyn. Mae'n bwysig rhoi mwy o flaenoriaeth i atal gwahaniaethu ac aflonyddu – neu unrhyw fath o gamymddwyn – yn y lle cyntaf.

Rydym yn falch o nodi bod y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Senedd a'r Polisi Urddas a Pharch presennol bellach yn cyfeirio at wahaniaethu ac aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, ond rydym yn parhau i bryderu am y diffyg polisiâu ac arweiniad ategol. Byddem hefyd yn awgrymu bod cyfeiriad penodol at y ffaith bod gwahaniaethu ac aflonyddu yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ein hymateb yn 2018, gwnaethom sylwadau y dylai fod gan y Senedd bolisi gwrth-aflonyddu cadarn ar waith. Fel y nodir yn ein canllawiau technegol, Aflonyddu Rhywiol ac Aflonyddu yn y Gwaith,¹ dylai fod gan bob cyflogwr:

- polisi gwrth-aflonyddu, sy'n cael ei gyfathrebu i weithwyr ac sy'n cael ei roi ar waith, ei fonitro a'i adolygu'n effeithiol;
- gweithdrefn briodol ar gyfer adrodd am aflonyddu, amddiffyn dioddefwyr aflonyddu, a gweithredu os bydd aflonyddu yn digwydd.

Ni ddylai cyflogwyr gyfuno gwahanol fathau o aflonyddu. Dylai fod ganddynt gwahanol bolisiâu i ymdrin ag aflonyddu rhywiol ac aflonyddu sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig, neu fod ag un polisi sy'n gwahaniaethu'n glir rhwng y gwahanol fathau o aflonyddu. Dylai cyflogwyr hefyd ystyried paratoi dogfennau strategaeth ar wahân i gyd-fynd â'u polisi neu bolisiâu gwrth-aflonyddu, gan nodi pa fesurau y byddant yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwahanol fathau o aflonyddu. Dylai'r dogfennau hyn ystyried materion megis gwahanol achosion mathau gwahanol o aflonyddu, a'r risg y bydd gwahanol fathau o aflonyddu yn digwydd yng ngweithlu penodol y cyflogwr.

¹<https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/2021/sexual-harassment-and-harassment-at-work.pdf>

Canllaw Technegol Aflonyddu Rhywiol ac Aflonyddu yn y Gwaith

Yn 2020, cyhoeddodd y Comisiwn ganllawiau technegol sy'n darparu arfer gorau ar gyfer atal ac ymateb yn effeithiol mewn perthynas ag aflonyddu ac aflonyddu rhywiol yn y gweithle, ac mae'n cynnwys:

- diffiniad ac enghreifftiau o beth yw aflonyddu rhywiol
- eich cyfrifoldebau fel cyflogwr
- beth ddylai polisi aflonyddu rhywiol eu cynnwys
- sut i roi'r polisi ar waith
- sut i ddelio â chwynion aflonyddu rhywiol
- ymddygiad troseddol

Wrth osod rhwymedigaethau cyflogwyr, mae'r canllawiau'n nodi:

Bydd cyflogwyr yn atebol am aflonyddu a gyflawnir gan eu gweithwyr yn ystod eu cyflogaeth, oni bai y gallant ddefnyddio'r amddiffyniad 'camau rhesymol'. Nid oes ots a yw'r cyflogwr yn gwybod am yr aflonyddu ai peidio.

Nid oes isafswm rhagnodedig ynghylch yr hyn y gall cyflogwr ei wneud i atal aflonyddu ac amddiffyn ei weithwyr. Mae'n brawf gwrthrychol ynghylch yr hyn y mae'n rhesymol i'r cyflogwr ei wneud o dan yr amgylchiadau.

Bydd polisi gwrth-aflonyddu da (neu bolisïau lle, er enghraifft, mae gan gyflogwr bolisïau ar wahân i ddelio ag aflonyddu rhywiol a mathau eraill o aflonyddu) yn:

- Cadarnhau i bwy y mae'r polisi'n gymwys.
- Datgan na fydd aflonyddu rhywiol, aflonyddwch ac erledigaeth yn cael eu goddef.
- Datgan bod aflonyddu rhywiol, aflonyddwch ac erledigaeth yn anghyfreithlon.
- Datgan y gall aflonyddu neu erledigaeth arwain at gamau disgyblu hyd at ac yn cynnwys diswyddo os caiff ei gyflawni:
 - mewn sefyllfa gwaith;
 - yn ystod unrhyw sefyllfa sy'n gysylltiedig â gwaith, megis mewn digwyddiad cymdeithasol gyda chydweithwyr;
 - yn erbyn cydweithiwr neu berson arall sy'n gysylltiedig â'r cyflogwr y tu allan i sefyllfa gwaith, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol; neu
 - yn erbyn unrhyw un y tu allan i sefyllfa gwaith lle mae'r digwyddiad yn berthnasol i'w addasrwydd i gyflawni'r rôl. Aflonyddu rhywiol ac aflonyddu yn y gwaith.
- Datgan y bydd ffactorau gwaethyngol megis cam-drin pŵer dros gydweithiwr iau yn cael eu hystyried wrth benderfynu pa gamau disgyblu i'w cymryd.

- Diffinio'r nodweddion gwarchoddedig y gallai aflonyddu fod yn berthnasol iddynt.
- Diffinio aflonyddu sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig, aflonyddu rhywiol, triniaeth lai ffafriol am wrthod neu ildio i aflonyddu rhywiol, ac erledigaeth, ar wahân. Ni ddylid cyfuno gwahanol fathau o aflonyddu (os yw bwlio wedi'i gynnwys o fewn yr un polisi) – dylid gwahaniaethu rhwng bwlio ac aflonyddu.
- Darparu enghreifftiau clir i ddangos pob diffiniad o'r gwahanol fathau o aflonyddu, sy'n berthnasol i amgylchedd gwaith y cyflogwr ac sy'n adlewyrchu'r ystod amrywiol o bobl y gallai aflonyddu effeithio arnynt.
- Cynnwys gweithdrefn effeithiol ar gyfer derbyn ac ymateb i gwynion o aflonyddu.
- Mynd i'r afael ag aflonyddu trydydd parti. Dylai'r adran hon amlinellu:
 - y gall aflonyddu trydydd parti arwain at atebolrwydd cyfreithiol;
 - na fydd yn cael ei oddef;
 - bod gweithwyr yn cael eu hannog i'w adrodd;
 - pa gamau sy'n cael eu cymryd i'w atal? Er enghraifft, hysbysiadau rhybuddio i gwsmeriaid neu negeseuon wedi'u recordio ar ddechrau galwadau ffôn;
 - pa gamau a gymerir i wneud iawn am gŵyn neu ei hatal rhag digwydd eto. Er enghraifft, rhybuddio cwsmer am ei ymddygiad, gwahardd cwsmer, adrodd unrhyw weithredoedd troseddol i'r heddlu, neu rannu gwybodaeth â changhennau eraill y busnes.
- Cynnwys ymrwymiad i adolygu'r polisi yn rheolaidd ac i fonitro ei effeithiolrwydd.
- Cwmpasu pob rhan o sefydliad y cyflogwr, gan gynnwys unrhyw safleoedd tramor, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfreithiau lleol cymwys sy'n gosod unrhyw ofynion ychwanegol ar y cyflogwr.

Byddem yn awgrymu'n gryf bod y Pwyllgor yn ystyried ein Canllawiau Technegol fel rhan o'r Ymchwiliad hwn, ac yn sicrhau bod polisïau cadarn ar waith i adlewyrchu cyfrifoldebau'r Senedd fel cyflogwr.

Rhyddid mynegiant

Rhaid i gyrrff cyhoeddus barchu'r hawliau i ryddid mynegiant a rhyddid rhag gwahaniaethu. Maent hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt roi sylw priodol i'r angen i hyrwyddo cysylltiadau da rhwng gwahanol gymunedau a ddiogelir gan gyfraith cydraddoldeb. Efallai y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fynd ati'n rhagweithiol i herio'r defnydd o gyfathrebu sarhaus.

Proses gwyno

Dylai'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am wahaniaethu, aflonyddu neu ymddygiad digroeso fod mor dryloyw a hygyrch â phosib, ac unrhyw rwystrau diangen wedi'u dileu. Rydym yn nodi gyda phryder mai 61.7% yn unig o staff cymorth Aelodau fyddai'n teimlo'n gyfforddus yn codi pryderon gan ddefnyddio'r broses bresennol. Mae hyn yn arwydd o broblem sylweddol, a bydd angen i unrhyw newidiadau yn y polisi gael eu cyfleu i'r holl staff, a darparu hyfforddiant perthnasol i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio gan bawb. Byddem hefyd yn awgrymu bod rhagor o waith yn cael ei wneud i ganfod pam nad yw gweithwyr yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r weithdrefn gwyno bresennol.

O fewn y 12 mis diwethaf, rydym wedi cael achos i ohebu â'r Llywydd, Pwyllgor Safonau'r Senedd a'r Comisiynydd Safonau yn dilyn cwyn a wnaed i ni gan randdeiliad am sylw gwahaniaethol a sarhaus a wnaed gan Aelod Seneddol ynghylch aelodau'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod cyfarfod llawn y Senedd. Er i'r Llywydd ofyn am ymddiheuriad gan yr Aelod Cynulliad ar unwaith, dewisodd y Llywydd beidio cyfeirio'r mater at Gomisiynydd Safonau'r Senedd. Ni wnaeth yr AS ymddiheuriad cyhoeddus i'r cymunedau yr oedd wedi eu sarhau.

Yn rhinwedd paragraff 3 Cod Safonau Ymddygiad Aelodau'r Senedd, dim ond y Llywydd neu Gadeirydd y Pwyllgor all gyfeirio mater sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelod yn ystod cyfarfod llawn y Senedd, sef Comisiynydd Safonau'r Senedd. Gan fod y Llywydd wedi dewis peidio â gwneud atgyfeiriad yn yr achos hwn, ni ellid symud y mater ymhellach. Byddem yn cynghori adolygu'r broses hon i sicrhau bod dulliau ar gael ar gyfer gwneud atgyfeiriad er mwyn i'r Comisiynydd ymchwilio mewn sefyllfaoedd lle nad yw'r Llywydd wedi cyfeirio'r mater.

Ystyriaethau Eraill

Yn ymateb Mawrth 2021 y Comisiwn i ymchwiliad Senedd Sensitif i Rywedd WEC ([Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb](#)), rydym yn nodi ein hawgrymiadau ar sut y gall y Llywodraeth, y Senedd a phleidiau gwleidyddol gymryd camau i greu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol ac ymatebol, gan gynnwys drwy atal ac ymateb i aflonyddu yn y gweithle, cynyddu hyblygrwydd, a diwygio absenoldeb rhieni. Bydd llawer o'r ymateb ac argymhellion yr ymgynghoriad hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Argymhellodd y Comisiwn y dylai Llywodraeth y DU gyflwyno dyletswydd orfodol ar gyflogwyr i gymryd camau rhesymol i amddiffyn gweithwyr rhag aflonyddu ac erledigaeth yn y gweithle, y gellir eu gorfodi gan unigolion a'r EHRC, ac ailgyflwyno darpariaethau adran 40 ar aflonyddu trydydd parti i ddarparu mwy o amddiffyniad i unigolion rhag aflonyddu. Byddai dyletswydd ataliol yn lleddfu'r baich ar staff ASau sy'n adrodd am aflonyddu, ac yn hytrach yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y cyflogwr i atal a datrys aflonyddu yn effeithiol. Byddai ailgyflwyno'r adran hon o ddeddfwriaeth y DU o fudd i bobl Cymru.

Un o'r heriau allweddol mae Aelodau o'r Senedd/Senedd Cymru yn eu hwynebu yw nad oes ganddynt statws cyflogaeth ffurfiol, felly nid ydynt yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu gan y darpariaethau cyflogaeth yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, mae gan bleidiau gwleidyddol rwymedigaethau penodol i amddiffyn eu haelodau rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.

Rydym yn cytuno â chanfyddiadau adroddiad cynharach Llywodraeth Cymru ar [Aflonyddu Rhywiol yn y Gweithle](#) nad oes rheswm pam na ddylai sefydliad sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ac interniaid fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod hwythau hefyd yn gallu gweithio mewn amgylchedd sy'n rhydd o aflonyddu, yn enwedig oherwydd gallant fod yn rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn sefydliad.

Credwn y dylai seneddau a phleidiau gwleidyddol fod ar flaen y gad o ran creu amgylchedd enghreifftiol i'r rhai sy'n gweithio ynddynt.

Rhan o sicrhau parch ac urddas yn y Senedd yw annog gweithredu gan bleidiau gwleidyddol. Mae gan bleidiau gwleidyddol oblygiadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon. Ond dangosodd ein hymchwil i'r rhwystrau y mae ymgeiswyr yn eu hwynebu mewn etholiadau lleol fod angen i bleidiau fod yn well o ran sicrhau bod diwylliannau ac ymddygiadau yn bodloni'r safonau a nodir yn rheolau ffurfiol y pleidiau. Gwyddom fod menywod yn arbennig yn teimlo nad oedd hyn yn digwydd bob amser, a bod methiant i ymateb i adroddiadau o wahaniaethu, aflonyddu neu ymddygiad amhriodol yn rhwystr i'w cyfranogiad a'u dilyniant.

Cyngor pellach

Oherwydd cwmpas eang y pynciau a drafodwyd yn yr ymchwiliad hwn, estynnwn wahoddiad i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad gwrdd â'r EHRC, fel y gallwn roi arweiniad pellach a phenodol. Mae ein timau polisi a chyfreithiol ar gael i gynghori neu i roi tystiolaeth y tu hwnt i derfynau tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad.

Darllen pellach

[Diversity of candidates and elected officials in Great Britain](#) EHRC 2019

[Turning the Tables: ending sexual harassment at work](#)

[Response to Call for Evidence: Intimidation of Parliamentary candidates](#) EHRC 2017

[Barriers to participation in standing for election to local government in Scotland](#) EHRC 2019

Urddas a Pharch – Canlyniadau Arolwg Hydref 2023

Diben yr Arolwg

Yn 2018, gwnaeth y Senedd gymeradwyo polisi Urddas a Pharch yn ffurfiol, sy'n nodi fel a ganlyn:

“Mae ymddygiad amhriodol yn golygu unrhyw ymddygiad sy'n effeithio yn andwyol ar urddas rhywun arall. Mae'n cynnwys aflonyddu, aflonyddu rhywiol, bwlio, bygwth a gwahaniaethu anghyfreithlon. Gall achosion o ymddygiad amhriodol fod yn gyfystyr â throedd, megis aflonyddu troseddol, ymosodiad cyffredin neu ymosodiad rhywiol. Ond mae'n ehangach na hynny. Mae'n cwmpasu'r holl ystod o ymddygiad nas dymunir – hynny yw, ymddygiad nad yw'n cael ei annog na'i dderbyn gan y dioddefwr, ni waeth a fwriadwyd iddo beri tramgwydd ai peidio, ac ni waeth a yw'n ddigwyddiad unigol ynteu yn rhan o gyfres.”

Yn 2018, gwnaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad gyfres o argymhellion yn ei Adroddiad, *Creu'r Diwylliant Cywir*, gan gynnwys y canlynol:

1. Bod Comisiwn y Cynulliad yn cyhoeddi arolwg urddas a pharch blynyddol o Aelodau, Staff Cymorth a staff y Comisiwn ac yn cyflwyno'r canfyddiadau a chynllun gweithredu cysylltiedig i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.
2. Bod Comisiwn y Cynulliad yn gwerthuso'r arolwg urddas a pharch blynyddol o Aelodau, Staff Cymorth a staff y Comisiwn ac yn ei ddatblygu i nodi math o ymddygiad amhriodol.
3. Bod yr arolwg urddas a pharch blynyddol a/neu arolygon staff yn cynnwys cyfres o gwestiynau ynghylch ymwybyddiaeth o'r weithdrefn a'r prosesau ar gyfer gwneud cwynion.

Diben yr arolwg Urddas a Pharch, felly, yw ein helpu i ddeall y canlynol:

1. Safbwyntiau ar y prosesau sydd ar waith.
2. Safbwyntiau ar y gefnogaeth sydd ar gael.
3. A oes unrhyw ddiwylliant cynhenid o fwlio neu aflonyddu.
4. Natur unrhyw ymddygiad amhriodol a brofwyd.

Methodoleg a chyfradd ymateb

Ar draws yr Aelodau, Staff Cymorth yr Aelodau a staff y Comisiwn, y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 55%.

Aelodau a Staff Cymorth Aelodau

Cynhaliwyd yr arolwg trwy Microsoft Forms ac roedd modd ei lenwi rhwng 18 Medi a 15 Hydref 2023. Cafodd y cwestiynau eu cynnwys fel rhan o'r arolwg ehangach i wasanaeth cwsmeriaid.

Anogwyd yr holl Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau i gwblhau'r arolwg, a gyfathrebwyd drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys drwy e-bost, galwadau ffôn i swyddfeydd rhanbarthol ac etholaethol, negeseuon ar fewnrwyd yr Aelodau a hyrwyddo mewn sesiynau galw heibio yn y Cwrt, a thu allan i'r brif ystafell giniawa. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 31% (101 o ymatebwyr allan o 327). Y dadansoddiad yw 23% ar gyfer Aelodau (14 o ymatebwyr allan o 60) a 31% ar gyfer Staff Cymorth Aelodau (83 o ymatebwyr allan o 267). Dewisodd 4% o ymatebwyr 'gwel gennyf beidio â dweud' (4 ymatebydd).

Er bod y gyfradd ymateb gyffredinol yn weddol isel, mae hyn yn dal i gynrychioli bron i draean o'r Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau, ac mae'n cynrychioli cynnydd sylweddol yn y cyfraddau ymateb o gymharu ag arolwg 2020 pan ofynnwyd y cwestiynau hyn ddiwethaf.

Staff y Comisiwn

Roedd modd llenwi'r arolwg rhwng 20 Medi a 4 Hydref 2023. Cafodd y cwestiynau eu cynnwys fel rhan o'r arolwg llesiant pwls ehangach.

Anogwyd yr holl staff i lenwi'r arolwg, a gafodd ei gyfathrebu trwy e-bost gyda cheisiadau i Benaethiaid Gwasanaeth i hyrwyddo hyn i'w staff. Y gyfradd ymateb gyffredinol oedd 71% (ac eithrio staff a oedd ar unrhyw fath o absenoldeb hirdymor).

Nifer y bobl a ddewisodd beidio â nodi eu meysydd gwasanaeth oedd 2.3% (8 o ymatebwyr).

Arolygon blaenorol

Yn 2020, cynhaliwyd arolwg urddas a pharch; roedd y cwestiynau yn arolwg hydref 2023 yn adlewyrchu'r cwestiynau a ofynnwyd bryd hynny. Dyma'r cyfraddau ymateb ar gyfer y ddau arolwg:

	2020	2023
Pawb	17%	55%
Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau	6%	31%
Staff y Comisiwn	24%	71%

Mae adran Canfyddiadau Allweddol yr adroddiad hwn yn amlygu newidiadau eang yn y canlyniadau rhwng y ddau arolwg. Dylid darllen y rhain yn ofalus gan fod y cyfraddau ymateb ar gyfer y naill arolwg a'r llall yn sylweddol wahanol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu'r ddau. Er enghraifft, yn 2020, mae 5% o Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau, yn cynrychioli un unigolyn. Fodd bynnag yn 2023, mae 5% yn cynrychioli tua phum unigolyn. Brasamcan, felly, yn hytrach na ffigurau union yw unrhyw gymariaethau rhwng 2020 a 2023.

Cynhaliwyd arolwg urddas a pharch hefyd yn 2022. Fodd bynnag, cynlluniwyd yr arolwg hwn i brofi ymwybyddiaeth o brosesau a chymorth yn ymwneud ag urddas a pharch er mwyn llywio'r adolygiad urddas a pharch. Ni ellir cymharu arolwg 2022, felly, mewn modd defnyddiol ag arolwg 2020 nac arolwg 2023.


Y canfyddiadau allweddol

1. Safbwyntiau ar y prosesau sydd ar waith

Un o amcanion ein gwaith ar Urddas a Pharch yw sicrhau bod y broses o ddefnyddio'r weithdrefn gwyno neu drafod pryderon yn fwy eglur a hygyrch i unrhyw un sydd am wneud hynny. Mae'r rhain wedi'u nodi ar ein gwefan allanol, ar dudalennau mewnwyd Aelodau a staff y Comisiwn, yn cael eu hyrwyddo trwy hyfforddiant, a gellir eu trafod gyda Swyddogion Cyswllt trwy ein llinell gymorth gyfrinachol. Ar gyfer staff y Comisiwn, mae'r tîm Gweithrediadau AD hefyd ar gael i roi gwybodaeth am y prosesau. Gall Cymorth Busnes i'r Aelodau roi cyngor i Aelodau a'u Staff Cymorth.


Gwnaethom ofyn: Wyddoch chi sut i adrodd am ymddygiad amhriodol?

Roedd tri chwarter (75%) o'r ymatebwyr, yn gyffredinol, yn cytuno eu bod yn gwybod sut i adrodd am ymddygiad amhriodol. Mae hyn wedi gostwng ychydig ers ffigur 2020, fodd bynnag, oherwydd y gyfradd ymateb isel yn 2020, mae'r gallu i wneud cymariaethau ystyrlon yn gyfyngedig.



Gwnaethom ofyn: Wyddoch chi lle y gallwch gael gfael ar gyngor neu rywun i siarad â nhw os nad ydych yn barod i wneud cwyn, neu os ydych yn ansicr o'r llwybr cywir i'w ddilyn?

Roedd ychydig dros ddwy ran o dair (69%) o'r holl ymatebwyr yn cytuno eu bod yn gwybod sut i adrodd am ymddygiad amhriodol. Mae hyn wedi gostwng ers ffigur 2020 – sef tua phedair rhan o bump o'r ymatebwyr – ond oherwydd y gyfradd ymateb isel yn 2020, mae'r gallu i wneud cymariaethau ystyrlon yn gyfyngedig. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng ymateb yr Aelod a Staff Cymorth yr Aelod i'r cwestiwn hwn, gyda 79% o'r Aelodau'n dweud eu bod, ond dim ond 59% o Staff Cymorth yn dweud eu bod.



Gwnaethom ofyn: Os ydych wedi cael profiad o ymddygiad amhriodol neu wedi bod yn dyst iddo, ond heb adrodd am hyn, nodwch pam.

Mae rhestr lawn o'r ymatebion â thema i'r cwestiwn hwn i'w gweld yn Atodiad B, ond dyma'r ymatebion a grybwyllwyd gan amlaf:

Ddim yn disgwyl iddo gael ei drin o ddifrif / ni chymerir camau hyder	9
Poeni am ôl-ffeithiau	8
Wedi adrodd amdano ond does dim wedi'i wneud	5
Wedi delio â'r mater wrth y ffynhonnell	3
Statws y person / roedd y person yn Aelod	4
Person allanol ydoedd	3
Wedi sylwi ar rywun arall yn profi'r ymddygiad amhriodol, heb fod yn siŵr a oedd am i'r mater gael ei godi / gwnaeth ofyn i mi beidio codi'r mater	5

Gwnaethom ofyn: A oes unrhyw welliannau y credwch y gallem eu gwneud i'r Polisi neu'r broses Urddas a Pharch?

Mae rhestr lawn o'r ymatebion â thema i'r cwestiwn hwn i'w gweld yn Atodiad A, ond dyma'r ymatebion a grybwyllwyd gan amlaf:

Gwneud y wybodaeth yn haws i'w darganfod / deall	8
Cyfathrebu mwy rheolaidd / mwy cyson am y broses a'r mentrau	6
Ansicr o'r broses	4
Angen mwy o ymagwedd wirioneddol gan y sefydliad at urddas a pharch, yn hytrach nag ymarfer ticio blwch/papur	4
Darparu cefnogaeth ar gyfer pryderon urddas a pharch trwy asiantaeth annibynnol/allanol	4
Sicrhau bod uwch staff yn parchu urddas a pharch / sicrhau diwylliant o urddas a pharch	3

Dadansoddiad a chymau nesaf:

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn deall sut i adrodd am ymddygiad amhriodol, a ble i geisio cyngor ac arweiniad, mae gwaith i'w wneud er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am hyn yn haws i'w chyrchu a'i deall. Mae angen cyfathrebu'n amlach. Mae'r rhain yn feysydd sydd eisoes wedi'u nodi drwy'r adolygiad Urddas a Pharch. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella hyn, trwy wybodaeth ar y wefan a'r fewnwyd, datblygu polisi, hyfforddiant cynefino a gloywi, a chynlluniau cyfathrebu parhaus. Rydym eisoes yn dechrau gweld effaith gadarnhaol y dull hwn. Mae staff y Comisiwn sydd wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar yn nodi lefel uchel o ymwybyddiaeth o ran sut i adrodd am ymddygiad amhriodol. Mae hyn yn dangos bod yr hyfforddiant wedi bod yn effeithiol.

Mae un wers yn glir: Mae angen cyfathrebu roi sicrwydd bod adroddiadau o ymddygiad amhriodol yn cael eu trin o ddifrif, ac y cymerir camau priodol. At hynny, mae angen ffocws penodol ar wella ymwybyddiaeth ar gyfer Staff Cymorth yr Aelodau.


2. Safbwyntiau ar y gefnogaeth sydd ar gael.

Mae amrywiaeth o gymorth ar gael i unrhyw un sy'n codi mater yn ymwneud ag ymddygiad amhriodol, neu y mae pryder wedi'i godi yn erbyn y person o dan sylw. Mae hyn yn cynnwys Iechyd Galwedigaethol, Adnoddau Dynol ar gyfer staff y Comisiwn, Cymorth Busnes i'r Aelodau, Undebau Llafur, a Swyddogion Cyswllt. Mae nifer o Swyddogion Cyswllt newydd wedi cael eu hyfforddi dros y 3 mis diwethaf, sydd hefyd wedi cynyddu amrywiaeth o ran Swyddogion Cyswllt; erbyn hyn mae 12 o Swyddogion Cyswllt, y mae eu manylion ar gael ar fewnwyd yr Aelodau a staff y Comisiwn fel ei gilydd. Mae'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP) wedi'i hailgaffael, gyda darparwr newydd (ViVUP) yn ei le o 1 Hydref 2023, y mae ei wasanaethau bellach yn cynnwys cwnsela wyneb yn wyneb (gan gynnwys cwnsela CBT). Ar gyfer Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau, mae mynediad hefyd ar gael i'r Survivors Trust.

Gwnaethom ofyn: Wyddoch chi sut i ofyn am gefnogaeth, os ydych yn penderfynu gwneud cwyn ffurfiol ai peidio? (I'r Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau y cwestiwn oedd: Wyddoch hi sut i ofyn am gefnogaeth emosiynol, os ydych yn penderfynu gwneud cwyn ffurfiol ai peidio?)

(I'w nodi: Pan ofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2020, y cwestiwn oedd 'Wyddoch chi sut i ofyn am gefnogaeth emosiynol, os ydych yn penderfynu gwneud cwyn ffurfiol ai peidio?')

Yn gyffredinol, mae ychydig llai na dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn gwybod ble i geisio cymorth p'un a ydynt yn gwneud cwyn ffurfiol ai peidio. Mae hyn wedi gostwng ychydig o gymharu â chanlyniadau 2020, fodd bynnag oherwydd y gyfradd ymateb isel yn 2020, mae'r gallu i wneud cymariaethau ystyrlon yn gyfyngedig. O fewn ymatebion yr Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau i'r cwestiwn hwn (cyfradd gytuno gyffredinol o 58%), mae gwahaniaeth sylweddol gyda 71% o'r Aelodau'n dweud eu bod yn gwybod, a 7% yn ateb 'na', ond dim ond 58% o'r Staff Cymorth ddywedodd eu bod yn gwybod, a chwarter (25%), yn ateb 'na'. DS oherwydd y nifer fach o Aelodau a ymatebodd, a chan ystyried y dewis i beidio â dweud (a oedd yn anghytuno'n fras mewn ymateb i'r cwestiwn hwn), dywedodd 58% o Staff Cymorth yr Aelodau eu bod yn gwybod, a'r ymateb cyffredinol yn y grŵp gan gynnwys Staff Cymorth ac Aelodau oedd 58%.



Dadansoddiad a chymau nesaf:


Mae ychydig llai na dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn gwybod ble i gael cymorth, ac mae angen mwy o waith i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael, gan gynnwys ar gyfer y rhai y gwneir honiadau yn eu herbyn. Mae'r rhain yn feysydd sydd eisoes wedi'u nodi drwy'r adolygiad Urddas a Pharch. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud gwelliannau, trwy well gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael ar y wefan, gwybodaeth ar y fewnwyd, polisiâu, a thrwy gynlluniau hyfforddi a chyfathrebu. Bydd y gwasanaeth EAP newydd yn cael ei hyrwyddo'n barhaus yn ystod y misoedd nesaf, ac ar gyfer staff y Comisiwn, bydd gwybodaeth am gymorth yn gyffredinol yn cael ei hailasesu yn arolwg llesiant gwanwyn 2024.

3. A oes unrhyw ddiwylliant cynhenid o fwlio neu aflonyddu

Mae uwch dîm rheoli'r Comisiwn, Comisiwn y Senedd, arweinwyr grŵp y pleidiau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gyd wedi ymrwmo i greu amgylchedd cynhwysol yn y gweithle sy'n rhydd o aflonyddu. Gofynnwyd am brofiadau unigolion ac a oeddent wedi profi ymddygiad amhriodol yn bersonol.


Gwnaethom ofyn: Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi cael profiad o ymddygiad amhriodol yn y gweithle gan unrhyw un sydd wedi'i gynnwys o fewn ein polisi – Aelodau, Staff Cymorth, staff Comisiwn y Senedd neu gontractwyr? Ar gyfer Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau, roedd y geiriad yn cynnwysyn y gweithle, neu wrth gynnal busnes.

Dyweddodd 9 o bob 10 o ymatebwyr (89.2%) ***nad oeddent erioed wedi profi*** ymddygiad amhriodol yn ystod y 12 mis diwethaf tra yn y gweithle (neu ar gyfer Aelodau/Staff Cymorth yr Aelodau, wrth gynnal busnes). Mae hyn yn welliant ar 2020 lle'r oedd tua phedair rhan o bump o'r ymatebwyr, ac yn welliant sylweddol ar y tro cyntaf i'r cwestiwn hwn gael ei ofyn yn 2018, lle dywedodd 61.6% yn unig o'r cyfranogwyr nad oeddent erioed wedi profi ymddygiad amhriodol.



Gwnaethom ofyn: Yn y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi bod yn dyst i ymddygiad amhriodol yn y gweithle (neu pan oeddech ar ddyletswydd) gan unrhyw un sydd wedi'i gynnwys o fewn ein polisi – h.y. Aelod o'r Senedd, aelod o Staff Cymorth yr Aelodau, staff Comisiwn y Senedd neu gontractwr?Ar gyfer Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau, roedd y geiriad yn cynnwysyn y gweithle, neu wrth gynnal busnes.

Mae canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi arsylwi ymddygiad amhriodol yn y gweithle naill ai unwaith neu ar sawl achlysur hefyd wedi gostwng ers 2020. Cofnodwyd rhai ymatebion 'ddim yn siŵr' y tro hwn, sy'n golygu mai'r ganran gyffredinol o ymatebwyr nad ydynt wedi profi unrhyw ymddygiad amhriodol yn y gwaith dros y 12 mis diwethaf yw 86%.



Gwnaethom ofyn: Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi sylwi ar ymddygiad amhriodol yn y gweithle gan aelodau o'r cyhoedd?

Dim ond i staff y Comisiwn y gofynnwyd y cwestiwn hwn ac ni chafodd ei ofyn yn 2020. Roedd 6% o'r ymatebwyr, yn gyffredinol, wedi profi ymddygiad amhriodol gan aelodau o'r cyhoedd yn y gwaith, yn bennaf o feysydd gwasanaeth sy'n ymwneud â'r cyhoedd.

	2023 (Staff y Comisiwn yn unig)
Do, unwaith	2.2%
Do, ar sawl achlysur	3.8%
Nac ydw	94.0%

Gwnaethom ofyn: Yn y 12 mis diwethaf a ydych chi wedi cael eich cyhuddo o ymddygiad amhriodol a'ch cyfeirio at broses gwyno ffurfiol?

Yn gyffredinol, roedd llai nag 1% o ymatebwyr wedi'u cyhuddo o ymddygiad amhriodol ac wedi'u cyfeirio at broses gwyno ffurfiol.

	Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau	Staff y Comisiwn	Canlyniadau Cyffredinol
Ydw	1%	0.9%	0.9%

Nac ydw	97%	99%	98.6%
Gwell gennyf beidio â dweud	2%	0.10%	0.9%

Gwnaethom ofyn: Er mwyn i ni allu asesu a yw rhagor o bobl wedi bod yn 'galw allan' unrhyw fath o ymddygiad amhriodol, a allwch ddweud wrthym a oes unrhyw un, yn y 12 mis diwethaf, wedi cysylltu â chi'n anffurfiol i'ch galw i gyfrif am rywbeth y gallent fod wedi barnu ei fod yn amhriodol?

Yn gyffredinol, mae llai na 2% o ymatebwyr wedi cael eu galw i gyfrif yn anffurfiol am ymddygiad amhriodol.

	Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau	Staff y Comisiwn	Canlyniadau Cyffredinol
Ydw	3%	1.2%	1.6%
Nac ydw	95%	97.6%	97.0
Gwell gennyf beidio â dweud	2%	1.2%	1.4%

Gwnaethom ofyn: Allwch chi ddweud wrthym a ydych chi, yn y 12 mis diwethaf, wedi mynd at rywun i'w galw i gyfrif am rywbeth yr ydych chi'n ei ystyried yn ymddygiad amhriodol?

Mae cyfradd uwch yma o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi galw rhywun i gyfrif, o gymharu ag ymatebwyr sy'n dweud eu bod wedi cael eu galw i gyfrif.

	Aelodau a Staff Cymorth yr Aelodau	Staff y Comisiwn	Canlyniadau Cyffredinol
Ydw	7%	5.7%	6%

Nac ydw	90%	92.7%	92%
Gwell gennyf beidio â dweud	3%	1.5%	2%

Dadansoddiad a champau nesaf:

Bu gwelliant sylweddol yng nghanran yr ymatebwyr sy'n profi, neu'n arsylwi ar ymddygiad amhriodol yn y gwaith. Yn yr un modd ag arolwg 2020, mae nifer yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi galw ymddygiad amhriodol i gyfrif yn parhau i awgrymu bod yna her. Fodd bynnag, bach iawn yw nifer yr ymatebwyr sy'n datgan eu bod nhw eu hunain wedi cael eu galw i gyfrif. Mae hyn yn debygol o olygu naill ai nad yw ymatebwyr wedi cydnabod eu bod wedi cael eu galw allan pan fod hyn wedi digwydd, neu eu bod yn amharod i rannu'r wybodaeth mewn arolwg, neu nad ydynt wedi'u cynnwys fel rhan o nifer y bobl a ymatebodd i'r arolwg.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein cyfleoedd hyfforddiant yn y maes hwn ac yn sicrhau bod pob grŵp a ddiogelir gan y polisi yn deall y cymorth sydd ar gael iddynt.



4. Natur unrhyw ymddygiad amhriodol a brofwyd

Mae'r wybodaeth a gyhoeddir ar y wefan a thudalennau'r fewnrwyd yn ei gwneud yn glir bod ymddygiad digroeso yn annerbyniol – hynny yw, unrhyw ymddygiad amhriodol sy'n effeithio'n andwyol ar urddas person arall. At hynny, mae'r canllaw hwn yn manylu ar yr hyn a olygir gan aflonyddu, gwahaniaethu a bwlio.

Gofynnwyd i gyfranogwyr roi manylion i ni am y math o ymddygiad amhriodol a brofwyd neu a arsylwyd, er mwyn sefydlu a oedd materion penodol yr oedd angen i ni fynd i'r afael â hwy, ac a allai'r rheini fod yn ymddygiad gwahaniaethol,



Gwnaethom ofyn: Os ydych chi wedi bod yn destun ymddygiad amhriodol, neu wedi bod yn dyst iddo yn y gwaith yn y 12 mis diwethaf, pa fath o ymddygiad amhriodol oedd hwn?

O ganlyniad i'r gwahaniaeth mewn cyfraddau ymateb rhwng staff y Comisiwn (71%), ac Aelodau a'u Staff Cymorth (31%), mae dau graff wedi'u cynnwys isod: 1. Nifer gwirioneddol yr ymatebion a dderbyniwyd gan staff y Comisiwn ac Aelodau a'u Staff Cymorth; 2. Canran yr ymatebion gan y grwpiau hyn a gyfeiriodd at ymddygiad amhriodol yn y meysydd canlynol. Mae'r ail graff hwn yn dangos – er nad oes gwahaniaeth sylweddol yn gyffredinol rhwng staff y Comisiwn ac Aelodau a'u Staff Cymorth yn y mathau o ymddygiad amhriodol a nodir – mae gwahaniaeth o ran 'aflonyddu, gwahaniaethu, sylwadau amhriodol, jôcs neu fathau eraill o ymddygiad amhriodol', gyda 5.5% o staff y Comisiwn yn cyfeirio at hyn, ond 0% o Aelodau neu Staff Cymorth yr Aelodau yn nodi hyn.



Gwnaethom ofyn: Os ydych chi wedi bod yn destun ymddygiad amhriodol, neu wedi bod yn dyst iddo yn y gwaith yn y 12 mis diwethaf, pa fath o ymddygiad amhriodol oedd hwn?

O ganlyniad i'r gwahaniaeth mewn cyfraddau ymateb rhwng staff y Comisiwn (71%), ac Aelodau a'u Staff Cymorth (31%), mae dau graff wedi'u cynnwys isod: 1. Nifer gwirioneddol yr ymatebion a dderbyniwyd gan staff y Comisiwn ac Aelodau a'u Staff Cymorth; 2. Canran yr ymatebion gan y grwpiau hyn a gyfeiriodd at ymddygiad amhriodol yn y meysydd canlynol. Mae'r ail graff hwn yn dangos, at ei gilydd, nad oes gwahaniaeth sylweddol yn gyffredinol rhwng staff y Comisiwn ac Aelodau a'u Staff Cymorth yn y mathau o nodweddion a nodwyd mewn perthynas ag ymddygiad amhriodol, gyda'r gwahaniaeth mwyaf yn gyfeiriadau at iechyd meddwl (4 aelod o staff y Comisiwn (1.2% o'r grŵp hwn) / 0 Aelod/Staff Cymorth yr Aelodau (0% o'r grŵp hwn)).



Dadansoddiad a chymau nesaf:

Er bod mwyafrif helaeth y cyfranogwyr wedi dweud nad ydynt wedi cael profiad na bod yn dyst i ymddygiad amhriodol o unrhyw fath, mae'n amlwg bod gwaith i'w wneud i ddatblygu'r diwylliant rydym yn ymdrechu i'w greu. Er bod canran gyffredinol yr ymatebwyr a nododd ymddygiad amhriodol sy'n gysylltiedig ag unrhyw nodwedd warchoddedig yn isel ar y cyfan, mae angen i'r gwaith ganolbwyntio'n benodol ar ymddygiadau sy'n ymwneud â rhywedd / rhywiaeth. Nodwyd ymddygiad amhriodol yn gysylltiedig â rhywedd gan 4% o ymatebwyr. Gall hyn gynnwys hyfforddiant ynghylch aflonyddu rhywiol a mwy o ymwybyddiaeth o'r llwybrau sydd ar gael i staff ar gyfer aflonyddu rhywiol yn y gwaith.

Atodiad A: Rhestr lawn o ymatebion thematig o ran a oes unrhyw welliannau i'r polisi neu'r broses Urddas a Pharch yr ydych o'r farn y gallem eu gwneud?

Gwneud y wybodaeth yn haws i'w darganfod / deall	8
Cyfathrebu mwy rheolaidd / mwy cyson am y broses a'r mentrau	6
Ansicr o'r broses	4
Angen mwy o ymagwedd wirioneddol gan y sefydliad at urddas a pharch, yn hytrach nag ymarfer ticio blwch	4
Darparu cefnogaeth ar gyfer pryderon urddas a pharch trwy asiantaeth annibynnol/allanol	4
Sicrhau bod uwch staff yn parchu urddas a pharch / sicrhau diwylliant o urddas a pharch	3
Mabwysiadu agwedd o welliant parhaus, gan ystyried adborth	2
Gwell ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth	1
Ymgorffori polisiau yn gyson ar draws y sefydliad	1

Gwneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i'r rheini nad ydynt yn defnyddio cyfrifiaduron yn rheolaidd	1
Atgoffa pobl o'r Swyddogion Cyswllt	1
Sicrhau disgwyliadau / proses glir ar gyfer Staff Cymorth yr Aelodau	1
Gwneud hyfforddiant sylfaenol yn orfodol	1
Mwy o wybodaeth am chwythu'r chwiban, y polisi cwynion a'r linc i Urddas a Pharch	1
Ei gwneud yn gliriach pwy i siarad â nhw	1
Arferion Adnoddau Dynol gwell / mwy pendant / cyflymach	1
Atgoffa'r Aelodau am Urddas a Pharch	1
Dylai'r gaplaniaeth fod yn wasanaeth ffurfiol a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd	1
Darparu eglurder ynghylch y tensiwn rhwng y ddyletswydd i adrodd yn erbyn yr angen i ddangos sensitifwydd a dealltwriaeth i ddioddefwyr ymddygiad amhriodol	1
Gormod o waith i lawer o Staff Cymorth, gan arwain at bwysau sylweddol	1
Rhoi poster Urddas a Pharch yn swyddfeydd yr etholaeth	1
Proses hollol annibynnol fel San Steffan	1
Roedd cymorth cwnsela yn wael iawn	1
Roedd y cymorth a ddarparwyd gan y Prif Weithredwr yn uniongyrchol yn dda	1

Atodiad A: Rhestr lawn o ymatebion thematig o ran a ydych wedi cael profiad o ymddygiad amhriodol neu wedi gweld ymddygiad amhriodol, ond heb roi gwybod am hyn, nodwch pam na wnaethoch

Ddim yn disgwyl iddo gael ei drin o ddifrif / ni chymerir camau hyder	9
Poeni am ôl-ffeithiau	8
Wedi adrodd amdano ond does dim wedi'i wneud	5
Wedi delio â'r mater wrth y ffynhonnell	3
Statws y person / roedd y person yn Aelod	4
Person allanol ydoedd	3
Wedi sylwi ar rywun arall yn profi'r ymddygiad amhriodol, heb fod yn siŵr a oedd am i'r mater gael ei godi / gwnaeth ofyn i mi beidio codi'r mater	5
Ddim yn siŵr sut i wneud	2
Ymdrinnir â hyn drwy iechyd galwedigaethol	1
Nid yw'n fy mhoeni i yn bersonol	1
Achos rydw i wedi arfer ag e	1
Gofynnwyd i mi beidio a gwneud	1
Ansicr ai ymddygiad bwlio ydoedd	1
Ddim eisiau gwneud ffws / cael fy ystyried fel rhywun sy'n achosi trwbl	2
Dyna'r diwylliant	1
Y straen o'i godi	1
Dim proses gredadwy	1
Sefydlogrwydd ariannol	1

Sylwadau amhriodol – heb fod yn ymwneud â nodweddion gwarchoddedig	1
Ddim yn siŵr a oedd yn 'ddigon difrifol'	1
Methu ymddiried yn y ffaith y caiff ei gadw'n gyfrinachol	1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon